Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Gwella Costau – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4505A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Amcanion a chwmpas ein gwaith 4

Canfyddiadau allweddol 4

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 9

# Cyflwyniad

1 Mae GIG Cymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae etifeddiaeth pandemig COVID-19 o ran y galw am wasanaethau; y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â staffio, ynni, meddyginiaethau, cynnal ystâd sy'n heneiddio; a mynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd cynyddol gymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio i gyd yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar draws y GIG.

2 Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi £425 miliwn ychwanegol ar gael i'r GIG ym mis Hydref 2023, roedd sefyllfa archwiliedig ar ddiwedd y flwyddyn 2023-24 ar gyfer GIG Cymru'n ddiffyg cyfunol o £183 miliwn. Er bod rhai o gyrff y GIG wedi gallu mantoli'r cyfrifon erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y sefyllfa i eraill – yn enwedig rhai Byrddau Iechyd – yn heriol gyda sawl un yn methu cyflawni'r cyfanswm diffyg wedi'i reoli a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

3 Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024-25 yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol. Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau bod ganddynt ddulliau cadarn ar waith i nodi a darparu cyfleoedd gwella costau yn ystod y flwyddyn a hefyd ddefnyddio dull tymor hwy o gyflawni cynaliadwyedd ariannol sy'n symud i ffwrdd oddi wrth ddulliau tymor byr i rai lle cyflawnir arbedion trwy drawsnewid modelau gwasanaeth a ffyrdd o weithio.

# Amcanion a chwmpas ein gwaith

4 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflawni rhaglen o waith sy'n archwilio dulliau cyrff y GIG o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd i wneud arbedion cynaliadwy o ran costau. Er bod ein gwaith manylach wedi'i dargedu at fyrddau iechyd, rydym hefyd wedi cyflawni gwaith lefel uchel mewn Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG, sy'n gysylltiedig â swyddogaethau penodol y cyrff hynny. Mae canfyddiadau o'r gwaith lefel uchel hwnnw yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Iechyd a Gofal Digidol Cymru) wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

5 Ymgymerwyd â'r gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

6 Fe wnaethom ymgymryd â'n gwaith rhwng Chwefror 2024 a Mai 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflwyno ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

# Canfyddiadau allweddol

7 Ar y cyfan, canfuom fod **gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru drefniadau cadarn ar gyfer nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd i wella costau. Fodd bynnag, mae angen iddo fwrw ymlaen yn gyflym â'r gwaith ar ei raglen drawsnewid 'Adeiladu ein Dyfodol' i leihau ei ddibyniaeth ar arbedion nad ydynt yn rheolaidd.**

8 Mae'r canfyddiadau sy'n cefnogi ein casgliad cyffredinol wedi'u crynhoi isod o dan y penawdau canlynol:

- Nodi cyfleoedd i wella costau
- Darparu cyfleoedd i wella costau
- Monitro a goruchwylio cyfleoedd i wella costau

## Nodi cyfleoedd i wella costau

9 Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ei gostau sydd wedi'u nodi'n glir yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2024-27. Mae'r rhain yn cynnwys twf gwasanaethau, chwyddiant digidol, cynnal cynhyrchion digidol allweddol, costau ynni, a gwelliannau seiberddiogelwch, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â chynnydd dewisiadau datblygu cynnyrch, fel y pontio i'r cwmwl.

10 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27 Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn cydnabod yr amgylchedd ariannol cynyddol heriol y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo ac yn nodi dull gweithredu o gefnogi ei uchelgeisiau sefydliadol tymor canolig i dymor hir a chynaliadwyedd ariannol. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, mae gwaith i ddatblygu model gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar gynnyrch[1] ar y gweill. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hyd yma wedi bod yn araf. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru, felly, wedi ymgorffori'r gwaith hwn yn ei raglen drawsnewid newydd 'Adeiladu ein Dyfodol'[2]. Un o brif gyflawniadau'r rhaglenni hyn yw'r ffrwd waith 'Canfod Mwy o Werth' a'i nod yw nodi a chyflawni rhaglenni effeithlonrwydd strategol ledled y sefydliad a helpu i leihau dibyniaeth ar arbedion afreolaidd. Fodd bynnag, fel yr argymhellir yn ein hadroddiad Asesiad Strwythuredig 2024, bydd angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru nodi'r arbedion disgwyliedig y mae'n gobeithio eu cyflawni o'r dull gweithredu hwn.

11 Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael rhywfaint o wybodaeth meincnodi genedlaethol gan GIG yr Alban ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol Iwerddon i helpu i ddeall cost gyffredinol y gwasanaeth. Fodd bynnag, fel yr unig ddarparwr gwasanaethau digidol yn GIG Cymru, mae cyfleoedd cyfyngedig i feincnodi gyda sefydliadau eraill GIG Cymru i helpu i lywio ei drefniadau nodi a dewis arbed costau. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru, felly, yn cynnal meincnodi mewnol o'i gostau cynnyrch a gwasanaethau i nodi arbedion posibl.

[1] Nod y model gweithredu yn seiliedig ar gynnyrch yw cynhyrchu effeithlonrwydd trwy wella cynhyrchiant, cyflymder datblygu a pherfformiad y gweithlu.

[2] Bydd y rhaglen drawsnewid 'Adeiladu ein Dyfodol' yn cefnogi cyflawni amcanion strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru trwy greu sawl prosiect a gwneud cyflawniadau hanfodol allweddol ei genhadaeth strategol 1 i 4 yn gydnaws â galluogwyr cenhadaeth 5. Canolbwynt y rhaglen fydd galluogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflwyno ei fodel gweithredu 'dull-cynhyrchion'.

12 Mae trefniadau digonol i ganfasio, cipio ac asesu cyfleoedd arbed costau trwy Grŵp Arbed Ariannol mewnol Iechyd a Gofal Digidol Cymru sy'n datblygu cynigion sydd yna’n cael eu hadolygu gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol, y Bwrdd Rheoli, a Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

13 Er bod Cynllun Ariannol 2024-25 Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn nodi'n glir gofyniad arbed arian y sefydliad sy'n cynnwys cyfnod tair blynedd ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27, nid yw'n darparu dadansoddiad o sut y bydd arbedion y flwyddyn gyfredol yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, darperir y wybodaeth hon yn yr adroddiadau cyllid arferol a dderbynnir yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

## Cyflawni cyfleoedd i wella costau

14 Fel y mae modd ei weld yn **Arddangosyn 1**, mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru hanes blaenorol o gyflawni ei dargedau arbedion cyffredinol. Fodd bynnag, roedd cyfran uchel o'r arbedion a gyflawnwyd yn afreolaidd eu natur (56% yn 2021-22, 54% yn 2022-23, a 52% yn 2023-24), wedi'u hysgogi’n bennaf gan or-gyflawni arbedion swyddi gwag. O ganlyniad, mae dibyniaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar arbedion afreolaidd a phwysau costau cynyddol yn golygu eu bod yn parhau i wynebu risgiau i'w gynaliadwyedd ariannol.

**Arddangosyn 1 – Hanes blaenorol arbedion Iechyd a Gofal Digidol Cymru rhwng 2021 a 2024**

| Blwyddyn | Targed Arbedion Cyffredinol £(M) | Arbedion cyffredinol gwirioneddol a gyflawnwyd (£M) | Arbedion rheolaidd fel % o'r targed arbedion cyffredinol | Arbedion afreolaidd a gyflawnwyd (£M) | Arbedion rheolaidd a gyflawnwyd (£M) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021-22 | 1.8 | 1.8 | 44% | 1.0 | 0.8 |
| 2022-23 | 2.4 | 5.9 | 46% | 4.8 | 1.1 |
| 2023-24 | 5.0 | 8.1 | 52% | 5.9 | 2.2 |

Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol Llywodraeth Cymru ac Adroddiadau Cyllid Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru

15 Fel rhan o'i hymateb ehangach i'r pwysau ariannol sylweddol o fewn y GIG yn ystod 2023-24, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Iechyd a Gofal Digidol Cymru nodi camau gwella ariannol i helpu i wella sefyllfa gyffredinol GIG Cymru. Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gallu cyflawni'n gyflym adolygiad o'r holl wariant cyflog heb eu hymrwymo gan gyfarwyddiaeth. Nododd Iechyd a Gofal Digidol Cymru gostyngiadau o £2.4 miliwn o gyllid ar draws sawl maes drwy'r adolygiad hwn gan gynnwys ynni, peidio â recriwtio i feysydd strategaeth gorfforaethol, ad-drefnu ystadau, ac arafu buddsoddiadau mewn llif digidol. Aseswyd ar y cyfan, bod y gostyngiadau hyn yn cael effaith gymedrol ar y cyflawniadau a gynlluniwyd.

16 Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru drefniadau clir ar waith ar gyfer troi ei ofynion arbed arian lefel uchel yn gynllun arbed arian defnyddiol. Mae'r Cynllun Arbed Arian 2024-25 yn cynnwys dwy elfen – arbedion o swyddi gwag a tharged effeithlonrwydd nad yw'n ymwnued â thâl o 3%. Mae terfynau gwariant dirprwyedig a thargedau arbed arian yn cael eu datganoli i gyfarwyddiaethau ar ddiwedd Chwarter 1 pob blwyddyn ariannol, gyda'r disgwyliad eu bod yn datblygu cynlluniau arbed rheolaidd i gyrraedd eu targedau priodol.

17 Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru fecanweithiau effeithiol ar gyfer cyfathrebu ei gynlluniau arbed costau i staff. Yn ystod 2023-24, darparodd y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Sicrwydd Busnes ddiweddariad cyfathrebu ar y cyd i staff a oedd yn nodi sut mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cefnogi sefyllfa ariannol GIG Cymru a'r disgwyliad i gyfarwyddiaethau nodi cyfleoedd posibl i arbed arian. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn defnyddio sesiynau briffio staff cyffredinol, adroddiadau am y newyddion diweddaraf a'r tudalennau adrodd staff ac atebolrwydd ar ei wefan i gyfathrebu negeseuon allweddol ynghylch arbed costau a gwariant.

## Monitro a goruchwylio cyfleoedd i wella costau

18 Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru drefniadau rhesymol effeithiol ar gyfer monitro a goruchwylio gwella costau. Mae perfformiad ariannol yn cael ei adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd gyda diweddariadau arferol yn rhoi trosolwg manwl o gyflawni arbed arian. Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd asesiad manwl o gynaliadwyedd ariannol ym mis Hydref 2023, gyda'r papur yn nodi trosolwg clir o'r risgiau ariannol allweddol a roddodd sicrwydd ychwanegol i'r Bwrdd o ran ei heriau ariannol. Ar y cyfan, mae'r craffu a'r her ar lefel y Bwrdd yn dda o ran perfformiad ariannol a chyflawni arbedion Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Fodd bynnag, pe bai'r risgiau ariannol yn cynyddu, efallai y bydd y Bwrdd yn dymuno ystyried cyflwyno eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i drafod perfformiad ariannol a risgiau yn amlach.

19 Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn monitro ei risgiau ariannol allweddol. Mae'r Tîm Cyllid yn monitro cyflawni arbedion ar lefel cyfarwyddiaeth yn agos, ac yn cymryd y camau angenrheidiol i ymdrin â risgiau wrth iddynt godi. Hyd yn hyn, mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyflawni arbedion gweithredol a sefydliadol. Fodd bynnag, mae dibyniaeth Iechyd a Gofal Digidol

Cymru ar arbedion swyddi gwag afreolaidd (gweler **paragraff 14**) yn cyflwyno risgiau i gynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol pe bai'n recriwtio i'r swyddi gwag hyn.

20 Mae cymhlethdod y model Cyllid Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF)[3] yn parhau i gyflwyno risg i gyflawni rhaglenni y mae'r sefydliad yn ceisio ei liniaru trwy ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd. Ym mis Medi 2024, ychwanegodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddwy risg goch newydd sy'n gysylltiedig â chyllid i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol o ran gwasanaethau digidol cynaliadwy a'r model cyllido datblygu, a chyllid Gofal Cysylltu[4] . Mae'r risgiau corfforaethol hyn yn cael eu monitro yn rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni, a'r Bwrdd.

[3] Mae Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu i ysgogi gwelliant ar draws pum thema: trawsnewid gwasanaethau digidol i gleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol; buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus; moderneiddio dyfeisiau; symud i wasanaethau cwmwl; a seiberddiogelwch a chadernid.

[4] Mae Cysylltu Gofal yn rhaglen newydd a sefydlwyd i gymryd lle System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru wrth iddi gyrraedd diwedd ei hoes. Nid yw hyn wedi'i ariannu ar hyn o bryd.

# Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflwyno'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a gafwyd trwy'r dulliau isod.

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys:<br>• Agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgorau<br>• Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol<br>• Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol<br>• Adroddiadau a chynlluniau allweddol o ran cyllid, arbedion a gwelliannau costau'r sefydliad<br>• Unrhyw adroddiadau perthnasol a baratowyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r uwch swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Sicrwydd Busnes<br>• Y Rheolwr Cyllid Cyswllt<br>• Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ac Adrodd |
| Arsylwadau | • Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd Cyhoeddus a'r pwyllgorau |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.